



Ein Treftadaeth
Our Heritage

Chwareli a Mwynfeydd



Chwarel Carreg yr Imbill SH 28623428

Roedd Carreg yr Imbill (SH 38633430) yn glamp o graig allan yn y môr ac yn ynys cyn i'r twyni tywod gasglu i'r gorllewin a'r dwyrain i ffurfio Traeth Pwllheli a Thraeth Abererch.

Yn 1875 dechreuodd y gwaith o gloddio ithfaen ohoni ac yn fuan roedd sets yn cael eu hallforio i Ganada a'r Unol Daleithiau ar longau oedd yn dod â choed i Bwllheli. Ar y cei roedd craen i lwytho llongau, a buan iawn roedd hyd at 150 yn cael eu cyflogi yno. Pobl ddŵad, â sgiliau yn y chwarel oedd llawer ohonynt.

Cyfnodau o brysurdeb a segurdd gafon nhw am flynyddoedd ac yn y 1880au buodd streic am fod y perchnogion am dorri cyflogau. Ymfudodd llawer o'r gweithwyr i Iwerddon a'r Alban.

Y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y cyfnod mwyaf llwyddiannus yno gan gyflogi dros 170.

Yn ystod Diwygiad 1904-05 buodd y chwarel ar gau am bedair awr er mwyn i'r gweithwyr gael cynnal cyfarfod gweddi.

Llongau fuodd yn cario'r sets ar y cychwyn ond yn y 1920/30au cafodd y cerrig mân eu cario gan lorïau oddi yno.

Yn 1939 daeth y les i ben a gan fod y graig wedi mynd mor fychan ni chafodd y les ei hadnewyddu.

Heddiw, mae'r graig yn boblogaidd gan bysgotwyr ac yn addas iawn i ddysgu dringo. Enw un gilfach stormus sy'n wynebu'r môr yw Crochan Berw.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Chwareli a Mwynfeydd Llŷn

Agorwyd y chwareli ar Fynydd Tir Cwmwd, Llanbedrog a daeth galw mawr am sets i balmantu strydoedd dinasoedd Lloegr a daeth hynny a gwaith i ddyinion Llanbedrog. Deuai'r ithfaen o greigiau igneaidd Llŷn ac yn yr Eifl a Mynydd Nefyn yr oedd y chwareli mwyaf yn. Cloddiwyd hefyd yng Ngwaith Trwyn Dwmi, ym Mhorth y Pistyll, Uwchmynydd, ac roedd chwarel ar Garreg yr Imbyll ym Mhllheli. Ond nid ithfaen yn unig geir yn Llŷn.

Dywed traddodiad y bu'r Rhufeiniaid yn cloddio am blwm ar Benrhyn Du ym mhlwyf Llanengan, ond o ganol y 17egG mae tystiolaeth bendant i hynny ddiwydd. Cafodd Copr ei gloddio ym Mhant Gwynt am gyfnod byr a phlwm ar Benrhyn Du a throsodd i gyfeiriad pentref Llanengan. Câi 240 o fwynwyr yn y 19egG eu cyflogi, y mwyafrif o Gernyw.

Ond rhaid mynd yn ôl bum i chwe mil o flynyddoedd i'r cyfnod Neolithig pan i ganfod y gweithgaredd diwydiannol cynharaf mae gennym dystiolaeth ohono a hynny yn Ffatri Fwyell Cerrig Mynydd y Rhiw.

Cafodd manganis ei ddarganfod yn gynnar yn y 19egG, ei gloddio yn Nant y Gadwen, Y Rhiw a'i allforio o Borth Ysgo ac o Benallt, ger Clip y Gylfinir a'i gario trosodd efo rhaffordd awyr i'w allforio o Borth Neigwl. Bu galw mawr am fanganis yn ystod y ddau Ryfel Byd ond daeth y gwaith i ben yn 1945.

Iasbis gâi ei gloddio ar Fynydd Carreg, ger Porthorion ac yn Llanllawen, Uwchmynydd.

Ar draeth Aberdaron, ym Mhorth Simdde mae gweddillion glanfa. Cafodd ei chodi yn niwedd 19egG i allforio 'barytes' (grisial trwm), y mwyn o Waith Pompren yn nechrau'r 20edG. Chafodd mo'r lanfa ei defnyddio, yn ôl y sôn.

Ond bu'r cloddio mwyaf annisgwyl yn ardal Rhoshirwaun a Llangwnadl pan aed ati i godi glo yno ddiwedd y 19egG.



Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal drwy ymweld â Llanbedrog – Darganfyddwch weddillion y chwareli pan yn cerdded o Lanbedrog tuag at Abersoch.